

Ein diwedd bendigedig

“...ac felly byddwn gyda’r Arglwydd yn barhaus. Calonogwch eich gilydd, felly, â’r geiriau hyn.” (adn. 17–18)

Beth am ddarlenn 1 Thesalonïaidd 4:13–18 ac yna myfyrio

Y gwirionedd olaf yr wyf am gyfeirio ato sydd yn rhaid i Gristnogion ei gredu yw y bydd Crist yn dychwelyd un diwrnod i’r ddaear. Ymhlith y saint, cyfeirir at hyn fel ‘y gobaith Cristnogol.’ Mae’r gobaith hwnnw, er hynny, yn ymestyn y tu hwnt i’r disgwyliad am ei ddychweliad. Mae hefyd yn cynnwys y gwirionedd y bydd i Iesu, pan ddaw, dychwelyd y saint sydd wedi marw ato ac fe fydd y saint sydd eto’n fyw yn ymuno â nhw i fod gyda’r Iesu i dragwyddoldeb.

Ar hyd y canrifoedd, mae pobl wedi gofyn sut mae pethau am ddod i ben cyn belled ag y mae dynoliaeth yn y cwestiwn. Dros ddwy fil o flynyddoedd yn ôl, fe welodd y proffwyd Daniel weledigaeth o ŵr a ofynnodd, ‘Pa hyd cyn i’r pethau rhyfeddol hyn gael eu cyflawni?’ (Daniel 12:6) Gofynnodd y disgyblion gwestiwn cyffelyb yn Mathew 24:3, ‘Beth fydd yr arwyddion am dy ddyfodiad a diwedd yr oes?’ Bu i Paul amlinellu beth fyddai’n digwydd yn 1 Corinthiaidd 1:15–24, ‘Yna, fe ddaw y diwedd.’

Ar gyfer y saint, wrth gwrs, fe fydd y diwedd yn rhyfeddol ac nid yn gymaint yn ddiwedd ond yn ddechrau oherwydd yn union fel ag y dywedodd C. S. Lewis, ‘mi fydd pob pennod yn well na’r un o’i blaen.’

Mae’r gwirioneddau yr ydym wedi edrych arnynt dros y diwrnodau diwethaf ynglŷn â Iesu a’r gwirioneddau hanfodol yn rhai y mae’n rhaid i ni eu credu. Yn anffodus, rhaid i mi ddweud fod y bobl hynny sydd yn ceisio taflu lludw a llaid i mewn i’r ffynnon yn ceisio cau’r ffynhonnau yma, ffynhonnau gwirioneddau sylfaenol. Mae’n rhaid i’r bobl yma osod o’r neilltu eu hawl i alw eu hunain yn Gristnogion.

Beth am fynd ymlaen i ddarlenn:

Math. 24:30–31; Actau 1:6–11; Dat. 21:1–5

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut y bydd Iesu’n dychwelyd?
2. Beth fydd yn dod i ben?

Gweddi

Arglwydd Iesu, rwy’n gweld fod y diwedd yn gychwyn bywyd newydd ar gyfer y rhai sy’n dy garu ac yn dy ddilyn di. Rwy’n dy ganmol am fy nghynnwys i ymhlith y nifer hynny. Bydded pob clod a gogoniant i’th enw di am byth. Amen.